



Ein Treftadaeth  
Our Heritage



**DILYNWCH Y STORI:** Dowch i wybod rhagor am saint hynafol Cymru drwy ymweld â **Ffynnon Gybi**, y safle hardd oedd gynt yn 'ffynnon sanctaidd' wedi ei chysegru i Cybi, sant o'r chweched ganrif.

## Taith Pererinion

Gyrru am 100 milltir ar draws gogledd Cymru, gan ddilyn llwybr taith fforddion y canol oesoedd

**Hyd: 2 ddiwrnod**

Dechreuwch yn **Abaty Dinas Basing (1)**, Parc Treftadaeth Dyffryn Maesglas, Treffynnon. Yma gallwch edrych ar yr arddangosfa Ein Treftadaeth a dewis codi eich pasbort pererin sy'n eich galluogi i gasglu stampiau fel cofnod o'ch taith.

Nesaf ymwelwch â **Ffynnon Sanctaidd Gwenfrewi (2)** sydd wedi ei lleoli ym mhen uchaf y parc. Yn ôl y chwedl torrodd Gwenfrewi ei dyweddiad â'r pennaeth Caradog i fod yn lleian. Gwylltiodd Caradog gymaint nes iddo ei dienyddio. Dywedir fod ffynnon sy'n iachau wedi ymddangos ble roedd ei phen wedi syrthio.

Teithiwch i'r gorllewin i **Gadeirlan Llanelwy (3)**, yr Eglwys Gadeiriol leiaf ym Mhrydain. Archwiliwch y tu mewn godidog, a thu allan cofiwch edrych am y gofeb sy'n coffáu cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Mae'r Gadeirlan yn un arall o ganolfannau Ein Treftadaeth.

Y daith nesaf yw i **Lansannan (4)** ble y dewch chi o hyd i'r eglwys a sefydlwyd gan Sant Sannan, esgob Gwyddelig, yn y chweched ganrif. Mae'n taith wedyn yn mynd â ni i bentref **Gwytherin (5)** ble gallwch chi weld eglwys y Santes Gwenfrewi a'i mynwent gyda'i rhes o feini hirion.

Nawr teithiwch i'r gogledd i **Eglwys Sant Digain (6)** yn Llangernyw. Yn y fynwent fe ddewch o hyd i ddwy garreg gynnar, wedi eu harysgrifio'n amrwd gyda chroesau. Hefyd yn y fynwent mae ywen yn gorweddian ac amcangyfrifir ei bod tua 4,000-5,000 o flynyddoedd oed - un o'r

coed hynaf yng Nghymru. Ewch yn ôl i Gonwy a dilyn yr arfordir i'r gorllewin drwy Fangor a Chaernarfon.

**Eglwys Sant Beuno (7)** Clynnog Fawr, yw lleoliad mynachlog Cristnogol gynnar ac roedd yn eglwys bwysig ar y daith. Roedd Sant Beuno yn ewythr i Gwenfrewi. Yn ochr dde'r eglwys mae carreg fawr wedi ei arysgrifio gyda chroes. Ymhellach i lawr y ffordd mae Ffynnon Sanctaidd Sant Beuno.

Yr arhosfa nesaf ar ein taith yw **Sant Hywyn (8)**, 'Eglwys Gadeiriol Llŷn' yn Aberdaron lle yn y 6ed ganrif y sefydlodd Sant Hywyn y sefydliad mynachaid cyntaf. Roedd y safle yn arhosfa bwysig ar daith y pererin i Ynys Enlli. Roedd y bardd enwog RS Thomas yn ficer yma o 1967 i 1978.

Gyrrwch i fyny i Uwchmynydd a mynd heibio'r Gegin Fawr ble fyddai'r pererinion yn gorffwys cyn croesi i Ynys sanctaidd **Enlli**. Yn ôl y chwedl yr ynys fach dawel hon yw safle claddu 20,000 o seintiau Cymru!



Gadeirlan Llanelwy © Ein Treftadaeth



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawffraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014

Mae "Ein Treftadaeth" yn rhan o Brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhagor o gefnogaeth drwy Gyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.